gunsmoke communications
PR | MEDIA | MARKETING



**Bydd cariad o'n cwmpas pan fydd y Rhyl yn cynnal ei ddigwyddiad Sant Ffolant Cymru cyntaf.**

Bydd Dydd Santes Dwynwen – fersiwn Cymru o Ddiwrnod Sant Ffolant – yn cael ei ddathlu yn y dref ar ddydd Sadwrn Ionawr 25.

Yn cael ei drefnu gan Gyngor Tref y Rhyl, bydd côr cymunedol Ghostbuskers o Tape Music & Film yn rhoi cefndir o ganeuon wrth i'r cynghorwyr ddosbarthu rhoddion thema Sant Ffolant.

Meddai maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Y Santes Dwynwen yw santes cariad Cymru, felly pa well diwrnod i ledaenu caariad yn y Rhyl ar ei diwrnod arbennig hi.

"Byddwn yn croesawu Ghostbuskers yn ôl, un o'n hoff fandiau byw, a bydd gennym anrheg arbennig i'r 100 person cyntaf i ymuno â ni mewn cân.

"Bydd y cynghorwyr yn dosbarthu bathodynnau #LoveRhyl sydd wedi eu gwneud yn arbennig ar gyfer y diwrnod fel rhywbeth i gofio am y digwyddiad ac i ddangos cariad tuag at ein tref."

Mae Diwrnod Santes Dwynwen yn talu teyrnged i'r santes a syrthiodd mewn cariad â dyn o'r enw Maelon ond roedd wedi ei gwahardd rhag ei briodi.

Mewn trallod, gweddiodd Dwynwen i syrthio allan o gariad gyda Maelon. Cafodd ymweliad gan angel a gynigiodd ddileu pob cof o Maelon a'i droi yn floc o rew.

Rhoddodd Duw dri dymuniad i Dwynwen – i feirioli'r dyn roedd yn ei garu, bod Duw yn diwallu gobeithion a breuddwydion cariadon a bod Dwynwen byth yn priodi.

Ychwanegodd y Cynghorydd Chard: "Rydym yn edrych ymlaen at rannu'r cariad ar Ddydd Santes Dwynwen eleni ac, efallai, bydd y cyngor tref yn chwarae ciwpid i rywun!"

Bydd Ghostbuskers a'r cyngor tref ar Stryd Fawr y Rhyl o 11am ar ddydd Sadwrn Ionawr 25.

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications